# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 22AIN CHWEFROR, 2018**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN UNIG AM 10:00AM**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd 15 Chwefror 2018)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Berwyn Parry Jones
Catrin Wager
Simon Glyn
Annwen Hughes
Linda Morgan
Gethin Glyn Williams
Aled Wyn Jones
Edgar Wyn Owen
Gruffydd Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Peter Antony Garlick
Kevin Morris Jones
Elwyn Jones
Keith Jones
Mike Stevens

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels
Owain Williams

## Llaf / Rhydd (1)

Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 7.12.17 fel rhai cywir

**5. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - Y CYNLLUN LLESIANT (DRAFFT)** 8 - 25

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet

**6. CYDBWYSEDD CYNALIADWYEDD** 26 - 28

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Ystyried adroddiad Pennaeth yr Amgylchedd

**7. CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO** 29 - 42

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Ystyried adroddiad Pennaeth yr Amgylchedd

**8. DIWEDDARAID YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG** 43 - 46

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Derbyn diweddariad ar waith yr ymchwiliad

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
# 7 RHAGFYR 2017

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Peter Garlick, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aled W Jones, Berwyn Parry Jones Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Mike Stevens, Gruffydd Williams ac Owain Williams,

**SWYDDOGION:** Gareth James (Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

a) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Dafydd Meurig (Aelod Cabinet – Amgylchedd) Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Meirion Williams (Uwch Reolwr Trafnidiaeth a Gofal Stryd) a Wyn Williams (Rheolwr Amgylchedd)

Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Dafydd Meurig (Aelod Cabinet – Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Nia Haf Davies (Rheolwr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd) a Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)

Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Dafydd Meurig (Aelod Cabinet – Amgylchedd) Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Stephen Churchman, Catrin Wager a Gethin Glyn Williams

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 10.10 2017 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**5. ADOLYGIAD CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY**

a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed gyda'r gwaith o baratoi adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Adroddwyd bod y gwaith o baratoi'r Cynllun Gwella wedi cael ei rannu'n ddau ran, sef

adolygu a pharatoi Datganiad Gweithredu. Wrth adolygu, ystyriwyd gwerthuso i ba raddau y cyflawnwyd amcanion y cynllun blaenorol, asesu cyflwr presennol y rhwydwaith a chanfod i ba raddau mae hawliau tramwy yn bodloni gofynion y cyhoedd. Er mwyn sefydlu darlun o'r sefyllfa gyfredol, o safbwynt cyflwr y rhwydwaith a chanfod barn y cyhoedd, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus drwy baratoi holiadur digidol. Ategwyd bod 1,386 o ymatebion dilys wedi eu derbyn, oedd yn nifer calonogol iawn.

Eglurwyd bod y datganiad gweithredu drafft (a oedd wedi ei gynnwys gyda'r adroddiad.) yn ceisio adnabod y prif themâu gwaith a'r camau gweithredu ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac mai dyma fyddai sail ar gyfer paratoi rhaglenni gwaith manwl. Y gobaith yw sefydlu rhaglen waith realistig a chyraeddadwy yn ogystal ag osgoi rhai o wendidau'r cynllun blaenorol.

b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:
- Bod y rhaglen yn un heriol o ystyried rhaglen arbedion y Cyngor
- Bod diffyg gwybodaeth am y mynediad sydd ar gael i'r cyhoedd
- A yw'r gyllideb yn ymateb i flaenoriaethau ymatebwyr yr holiadur?
- Anodd coelio nad oes mapiau o'r llwybrau ar gael ar wefan y Cyngor
- A oes cynlluniau pellach ar gyfer y dyfodol wedi eu hystyried petai *praesept* Cynghorau Cymuned yn lleihau neu'n dod i ben?

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfraniad y Parc Cenedlaethol a Llwybr yr Arfordir i'r rhwydwaith, amlygwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu £80k y flwyddyn ond nad oedd manylion manwl ar wariant y Parc Cenedlaethol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â blaenoriaethu themâu'r rhaglen waith, amlygwyd y byddai agweddau o bob thema yn cael sylw, ond bod hyn yn ddibynnol ar yr adnoddau fydd ar gael.

Mewn ymateb i sylw am y categorïau llwybrau a phetai blaenoriaeth yn cael ei roi i gategori 1, beth fyddai yn digwydd i gategori 4, amlygodd yr Aelod Cabinet mai anodd yw cadw balans rhwng y categorïau ac nad oedd unrhyw fwriad i anwybyddu categori 4. Ategwyd y byddai'r Uned yn parhau i archwilio, cydweithio a cheisio cadw mynediad yn agored.

Mewn ymateb i sylw petai rhwystrau ar y categorïau isaf, amlygwyd bod angen rhannu'r wybodaeth er mwyn ceisio datrys y rhwystr. Ategwyd mai cyfrifoldeb y perchennog tir fydd adnewyddu giatiau a chamfeydd.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â datblygu mapiau ar y wefan, amlygwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal a bod angen cefnogaeth Adran Gwefan y Cyngor i weithredu ymhellach. Nodwyd bod nifer wedi holi am y gwasanaeth ac felly'r gobaith yw datblygu mapiau i'r dyfodol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r posibilrwydd i Gynghorau Cymuned fethu ag ymdopi gyda chyfrifoldebau ychwanegol ac os oes deddfwriaeth statudol yn nodi bod angen i'r Cyngor sicrhau eu bod yn cynnal yr holl lwybrau, adroddwyd mai cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau mynediad. Pwysleisiwyd er hynny, mai categori 1 a 2 fyddai yn cael blaenoriaeth, oni bai bod tystiolaeth ddigonol yn dangos bod categori 3 a 4 yn cael mwy o ddefnydd.

Derbyniwyd y sylw na fydd modd dibynnu ar y Cynghorau Cymuned i wneud y gwaith gan fod y gofynion eu cyfrifoldebau yn cynyddu.

Mewn ymateb i sylw petai *praesept* Cynghorau Cymuned ar gyfer cynnal a chadw llwybrau yn lleihau ac os oedd cynllun pellach yn ei le nodwyd bod yr Adran wedi ceisio gwarchod arian y Cynghorau Cymuned, ond anodd fyddai gwybod faint o arian sydd ar gael i'r dyfodol. Er hynny, ategwyd bod staff arbenigol gan yr uned fyddai yn cynnig hyfforddiant, defnydd o offer a chefnogaeth ac yr angen i ystyried y posibilrwydd o gydweithio gyda chynlluniau cymunedol megis Tref Werdd. Ategwyd nad oedd arian wrth gefn, ond byddai rhaid defnyddio arian y categoriau ac arfogi'r Cynghorau Cymuned i wneud y gwaith. Nodwyd hefyd bod y cynllun yn cael ei adolygu pob dwy flynedd i asesu os yw'r rhaglen yn rhy uchelgeisiol.

c) Derbyniwyd yr adroddiad

**6. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL**

a) Cyflwynwyd er gwybodaeth adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn gosod cefndir a phwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ynghyd a gwybodaeth ar sail y polisïau ar gyfer CCA: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy. Eglurwyd bod y CCA yn rhoi arweiniad manwl a chlir ar sut y defnyddir polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gan Cyngor Gwynedd a Chyngor Môn yng Ngorffennaf 2017. Ategwyd bod gan bolisïau amrywiol y Cynllun rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi, cynnal a chreu cymunedau trefol a gwledig nodedig a chynaliadwy, drwy sicrhau bod Cynghorau yn cwrdd â'u dyletswyddau statudol i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

Penderfyniad y Cyngor Llawn 28ain Gorffennaf 2017 oedd blaenoriaethu CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy wrth baratoi canllawiau'r Cynllun Datblygu. Tynnwyd sylw at yr elfennau a ystyriwyd yn hanfodol ar gyfer cymunedau nodedig a chynaliadwy ynghyd ac amcan strategol y Cynllun Datblygu oedd yn ymwneud a lles yr Iaith Gymraeg a diwylliant - ategwyd bod cynnwys Polisi PS1 yn gosod fframwaith polisi lleol wrth ystyried yr agweddau hyn.

Cyflwynwyd yr amserlen drafft oedd wedi ei gosod ar gyfer paratoi'r CCA gan amlinellu pwysigrwydd cael y cyfle i graffu'r canllaw yn unol â dymuniad y Pwyllgor (nodwyd bod yr amserlen wedi ei haddasu i gyfarch hyn).

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â sail a defnydd y TAN20, nodwyd bod mwy o fanylder yn y Cynllun Datblygu Lleol ac y byddai'r canllawiau, unwaith y byddant wedi eu datblygu, gyda sail llawer cryfach na'r hyn sydd yn y TAN20 sydd yn gyfyngedig ar rai gofynion. Petai Arolygwr yn ochri safbwynt TAN20, nododd yr Uwch Reolwr Cynllunio y byddai yn hyderus i gefnogi safiad ar y canllaw ac nid ar y TAN20, oherwydd byddai penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth ddiweddar. Awgrymwyd bod angen sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o hyn.

Derbyniwyd y wybodaeth

b) Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd briff drafft ymchwiliad craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg mewn ymateb i ddymuniad y Pwyllgor i graffu bod proses ymgynghori ar y CCA Cynllunio a'r Iaith Gymraeg yn un gynhwysol. Nododd bod y Fforwm Craffu wedi cytuno rhoi blaenoriaeth i'r ymchwiliad a bod adnodd wedi ei adnabod i gefnogi'r ymchwiliad. Ategwyd bod trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal ar y briff gyda'r swyddogion perthnasol.

Amlygwyd y byddai'r ymchwiliad yn adrodd nôl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ac i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Adroddwyd bod cais wedi ei gyflwyno i Cyngor Môn graffu ar y cyd gyda Gwynedd, ond ni dderbyniwyd ymateb. Nodwyd y byddai

angen hyd at 5 aelod i fod yn rhan o'r ymchwiliad a fyddai yn cynnwys un aelod o'r Pwyllgor Iaith.

Gwnaed cais am swyddogaethau'r Panel Cynllunio ar y Cyd ac os oedd rôl statudol o graffu gan y Panel.

c) Penderfynwyd derbyn y briff

ch) Enwebwyd y Cynghorwyr Seimon Glyn, Gruffydd Williams ac Owain Williams ynghyd ac Aled Evans (Pwyllgor Iaith)

**7. YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUNIO - DIWEDDARIAD**

Derbyniwyd adroddiad cynnydd gan yr Aelod Cabinet yn dilyn ymchwiliad craffu i'r maes cynllunio. Amlygwyd prif ganfyddiadau'r ymchwiliad a rhoddwyd diweddariad ar yr argymhellion a gyflwynwyd ym Mawrth 2017.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r argymhelliad i addasu trothwyon Cynllun Dirprwyo Gwynedd, adroddwyd bod y gwaith bellach wedi derbyn cefnogaeth Aelodau'r Pwyllgor gyda'r bwriad o fwrw ymlaen i wneud yr addasiadau yn ffurfiol drwy'r drefn briodol. Ategwyd bod bwriad i'r cynllun dirprwyo gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym Mawrth 2018 .

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12pm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 22 Chwefror 2018 |
| **TEITL** | **CRAFFU Y CYNLLUN LLESIANT DRAFFT** |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| **PWRPAS** | Rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor graffu cynnwys y Cynllun Llesiant Drafft Gwynedd a Môn a chyflwyno unrhyw sylwadau |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Llesiant sy'n amlinellu sut y bwriedir gwella llesiant trigolion yr ardal.

1.2 Fel y byddwch yn ymwybodol mae Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn yn cynnwys cynrychiolaeth ar y lefel uchaf o'r prif gyrff cyhoeddus yn yr ardal. Ymysg yr aelodaeth statudol mae Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

1.3 Rhan gyntaf y gwaith o lunio'r Cynllun Llesiant oedd cynnal asesiad o lesiant lleol gan wneud gwaith ymchwil er mwyn deall a dysgu mwy am yr ardaloedd hynny. Yn ogystal, fe gynhaliwyd nifer o sesiynau ymgynghori cyhoeddus yn yr ardaloedd hyn er mwyn casglu mwy o wybodaeth a rhoi cyfle i drigolion leisio barn.

1.4 Ym mis Mai 2017 cyhoeddwyd Asesiadau o Lesiant Lleol ar gyfer ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ddwy sir wedi eu rhannu yn 14 o ardaloedd llai (8 yng Ngwynedd a 6 ym Môn).

1.5 Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol roedd 9 prif neges yn cael eu hamlygu yn yr asesiadau ar gyfer yr ardal gyfan. Cynhaliwyd cyfres o weithdai pellach yn ystod mis Awst 2017 ar sail y prif negeseuon a adnabuwyd er mwyn trafod sut y byddai modd ymateb i'r materion a amlygwyd.

1.6 Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth uchod gan y Bwrdd wrth lunio'r Cynllun Llesiant Drafft ar gyfer Gwynedd a Môn. Ceir copi o'r ddogfen hon yn **Atodiad 1.**

1.7 Mae dyletswydd statudol ar y Pwyllgor Craffu perthnasol o fewn y Cyngor graffu cynnwys y ddogfen fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai un o'r partneriaid ydym ni fel Cyngor ac mai penderfyniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fydd cynnwys y cynllun terfynol.

**2 CYNLLUN LLESIANT DRAFFT**

2.1 Yn y cynllun fe amlinellir sut mae'r Bwrdd yn bwriadu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion trwy gydweithio er mwyn cyflawni ar gyfer yr ardal gyfan.

2.2 Mae'r **Amcanion Llesiant** wedi eu llunio yn dilyn dadansoddi'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn yr Asesiad Llesiant ac ystyried casgliadau ymchwil ac asesiadau eraill e.e. Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol ym maes iechyd a gofal.

2.3 Ceir 2 amcan llesiant gyda 6 o flaenoriaethau gaiff eu targedu er mwyn gwireddu'r amcanion. Nodir bod y blaenoriaethau hyn wedi eu selio ar y negeseuon a gafodd eu hamlygu fel rhan o'r Asesiad Llesiant.

1. **Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hirdymor**
   - Yr iaith Gymraeg
   - Cartrefi ar gyfer bobl leol
   - Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau
   - Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau

2. **Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon byw da**
   - Iechyd a gofal oedolion
   - Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc

2.4 Cred y Bwrdd fod y rhain yn feysydd y gellir cydweithio yn well ynddynt, mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector gyhoeddus, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

2.5 Fel rhan o'r ymgynghoriad mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eich gwahodd i graffu cynnwys y Cynllun Llesiant drafft gan roi ystyriaeth benodol i'r cwestiynau a ganlyn:

- A ydych yn ystyried bod yr amcanion llesiant a'r blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod ar gyfer gwireddu'r amcanion am wella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd y ddwy sir?
- A oes unrhyw flaenoriaethau ar goll?
- Pa flaenoriaethau y dylid canolbwyntio arnynt yn gyntaf?
- Lle gall y Bwrdd gydweithio a chyd-ddylanwadu er mwyn gwneud gwahaniaeth?
- Ym mha ffordd y gall cymunedau gynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun ac i'w ddatblygu ymhellach i'r dyfodol?
- Unrhyw sylwadau eraill.

**3 CAMAU NESAF**


3.1 Bydd y cyfnod o dri mis o ymgynghori statudol yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth. Yn dilyn hyn bydd y Bwrdd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn llunio Cynllun Llesiant terfynol.

3.2 Unwaith y bydd y Bwrdd wedi cymeradwyo'r fersiwn derfynol bydd y Cynllun Llesiant yn cael ei gyflwyno i Fyrddau/Cyngor Llawn yr aelodau statudol am gymeradwyaeth cyn ei gyhoeddi ym mis Mai 2018.

3.3 Yn achos Cyngor Gwynedd bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fai.

**Atodiad 1** - Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn (Drafft).

# CYNLLUN LLESIANT
# GWYNEDD A MÔN



DRAFFT
2017

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN

# CYNLLUN LLESIANT

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn ymrwymo i gyflawni newidiadau cadarnhaol i sicrhau'r dyfodol gorau posib i gymunedau ar draws y ddwy sir drwy'r Cynllun Llesiant hwn. Y nod yw gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion gan sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i gyflawni uchelgais ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Mae gennym gymunedau cryf a balch, gyda thraddodiad o helpu'n gilydd ac o gydweithio. Bydd rôl y cymunedau hyn yn ganolog wrth gyflawni'r amcanion llesiant sydd wedi eu gosod yn y cynllun hwn.

Mae ymgysylltu gyda chymunedau yn greiddiol i lwyddiant y cynllun, ac mae'r Bwrdd yn ymrwymo i ddarparu arweiniad clir er mwyn cyrraedd ei amcanion. Fel aelodau byddwn yn cymryd cyfrifoldeb gyda'n gilydd i wireddu'r cynllun a byddwn yn cyd-weithio gyda phartneriaid i wella llesiant trigolion a'n cymunedau.

Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio na ddylid ystyried y Cynllun hwn ar ei ben ei hun ac nid yw'n ceisio cwmpasu holl wasanaethau a gweithgareddau'r cyrff cyhoeddus sy'n gweithio yng Ngwynedd a Môn. Bydd y sefydliadau unigol yn parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol yn ogystal â chyfrannu at amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Ffion Johnstone**
*Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn*

# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL [CYMRU] 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant (gweler llun isod) a phump ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Mae hefyd yn ceisio sicrhau ein bod yn well ar wneud penderfyniadau drwy osod dyletswydd ar sefydliadau i feddwl am yr hir-dymor, i gydweithio, ac i ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau.


Gyda'i gilydd, mae'r saith nod llesiant a'r pump ffordd o weithio wedi eu cynllunio i gefnogi cyrff cyhoeddus i gwrdd ag anghenion presennol eu cymunedau, a sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Ddeddf hefyd wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu dyfodol gwell ar gyfer pobl Cymru. Fel rhan o hyn mae'n rhaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu llesiant eu hardaloedd a chreu Cynllun Llesiant gyda'r nod o wella cymunedau.

Rhaid i'r Byrddau ystyried amrywiaeth o ddeddfwriaethau eraill sydd hefyd wedi eu llunio i wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deddf Newid Hinsawdd 2008
- Deddf Safonau a Fframweithiau Ysgolion 1998
- Deddf Gofal Plant 2006
- Mesurydd Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Gyda hyn oll mae'r Cynllun Llesiant yn cael ei ddatblygu mewn cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol gymhleth – gydag ansicrwydd economaidd a gwleidyddol yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau ac yn cael effaith ar gymunedau yn lleol ac ar draws Cymru.



# AELODAETH BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi penderfynu gweithio gyda'i gilydd fel un Bwrdd i gyflawni eu hamcanion.

Aelodau statudol y Bwrdd yw:


- Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn ogystal â'r aelodau statudol, mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd i wahodd unigolion a chyrff eraill i gyd-weithio. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi gwahodd y sefydliadau canlynol fel aelodau gwadd:

- Llywodraeth Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Mantell Gwynedd
- Medrwn Môn
- Gwasanaeth Prawf Cymru
- Prifysgol Bangor
- Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Grŵp Llandrillo Menai

Bydd cyfle i wahodd cyrff/ mudiadau/ sefydliadau/ partneriaid eraill i eistedd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn y dyfodol wrth i amcanion a gweithrediadau penodol ddod i'r amlwg.

# ASESIAD O LESIANT LLEOL



Ym mis Mai 2017 cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Penderfynodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn rannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai a chafodd gwaith ymchwil ei wneud er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Roedd wyth o'r ardaloedd yma yng Ngwynedd a chwech yn Ynys Môn.

Unwaith roedd y data wedi ei gasglu a'r gwaith ymchwil wedi ei gwblhau cynhyrchwyd llyfrynnau unigol ar gyfer pob un o'r 14 ardal. Roedd y llyfrynnau yn edrych ar lesiant yng nghyd-destun y pedwar prif bennawd yn y Ddeddf – sef Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol. Mae pennawd ychwanegol wedi ei ychwanegu, sef 'Poblogaeth a Iaith' gan fod y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd y thema benodol yma i'r ardal.

Cafodd 28 o sesiynau cyhoeddus eu cynnal, dau ym mhob un o'r ardaloedd, i gasglu mwy o wybodaeth ac i roi cyfle i drigolion i leisio barn. Gofynnwyd i bobl a oeddent yn adnabod eu hardal o'r llyfrynnau, beth oedd yn bwysig iddynt, a beth oeddent yn hoffi am eu cymuned yn ogystal â beth fyddent yn hoffi ei weld yn newid. Gofynnwyd hefyd beth oedd yn bwysig o ran llesiant yr unigolyn a llesiant cymunedol.

Roedd hi'n bwysig i glywed lleisiau amrywiol ar draws yr ardal – felly cynhaliwyd sesiynau mewn ysgolion a chyda grwpiau cymunedol hefyd. Yn ogystal roedd trafodaethau rhanbarthol gyda grwpiau anoddach i'w cyrraedd.

Roedd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a chafwyd erthyglau yn y wasg leol ac ar wefannau partneriaid er mwyn hyrwyddo'r asesiad ac i annog trigolion i gwblhau holiadur ar-lein ynglŷn â'u hardaloedd nhw.


Mae'r llyfrynnau gwybodaeth ar gyfer pob ardal yn parhau i fod ar gael ar y wefan.

**www.LlesiantGwyneddaMon.org.**

WWW.LLESIANTGWYNEDDAMON.ORG

# BETH YW LLESIANT?

Nid oes un diffiniad pendant o 'lesiant'. Mae trafodaethau cyson ynglŷn â'r ystyr ac mae'n debyg bod llesiant yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb. Gall llesiant ddisgrifio'r pethau hynny sy'n effeithio ar ba mor dda yw bywyd unigolyn. Mae'n llesiant personol yn gallu cynnwys teimladau o hapusrwydd, safon bywyd, a'r cysyniad o fyw bywyd i'r eithaf. Mae'n cymunedau, ein diwylliant, ein hiechyd, yr amgylchedd, a'r economi oll yn effeithio ar lesiant a safon bywyd. Mae beth sy'n bwysig i lesiant personol hefyd yn debyg o newid fel mae rhywun yn mynd trwy'r gwahanol gyfnodau o fywyd. Mae'n dilyn hefyd fod llesiant personol pobl yn cael effaith ar lesiant eu teuluoedd, y cymunedau a'r ardaloedd maen nhw yn rhan ohonynt.



# BETH YW LLESIANT I BOBL GWYNEDD A MÔN?

Dyma flas ar yr hyn a ddywedodd ein trigolion:

**Beth sy'n braf am fyw yn eich ardal chi?**

Mae'r ffaith bod hon yn ardal Gymreig gyda chanran uchel yn siarad Cymraeg, ac ysbryd cymunedol cryf yn bwysig i bobl. Nododd nifer bod cael byw mewn ardal ddiogel yn bwysig iawn hefyd, yn ogystal â'r amgylchedd naturiol a'r golygfeydd o'u cwmpas.

**Beth sydd ddim cystal?**

Mae diffyg swyddi o safon uchel yn bryder i drigolion. Nodwyd hefyd bod y pellter oddi wrth wasanaethau a chyfleusterau a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus addas yn broblem. Ffactorau eraill oedd yn achosi pryder oedd prisiau uchel ar gartrefi ac eiddo, ac edrychiad strydoedd mewn ambell i dref.

**Beth sy'n hybu eich llesiant ac yn cyfrannu at ansawdd bywyd yn eich ardal?**

Mae'r cyfle i wneud gweithgareddau awyr agored, yr amgylchedd naturiol, cyfleusterau lleol, ac ysbryd cymunedol i gyd yn ffactorau sy'n cael effaith gadarnhaol ar lesiant trigolion yr ardal. Mae hyn oll yn ogystal â chefnogaeth teulu, ffrindiau a chymdogion yn cyfrannu at hybu llesiant ac yn gwella ansawdd bywyd pobl Gwynedd ac Ynys Môn.

**Beth fyddech chi'n ei newid am eich ardal i'w wneud yn lle brafiach i fyw?**

Y ffactorau y byddai trigolion yn eu newid am eu hardal fyddai trafnidiaeth gyhoeddus, creu mwy o swyddi gyda chyflogau uwch, datblygu gweithgareddau a chyfleusterau lleol a gwella edrychiad strydoedd.

# BETH OEDD YR ASESIAD YN EI DDWEUD WRTHYM AM LESIANT EIN HARDALOEDD?

Man cychwyn oedd yr asesiad – braslun o lesiant yr ardal a oedd yn mynd law yn llaw â'r llyfrynnau ardal er mwyn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall Gwynedd a Môn yn well.

Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol, daeth y Bwrdd i gasgliad ar brif negeseuon yn yr asesiad, sef:

1. **YR ANGEN I GYNNAL YSBRYD CYMUNEDOL IACH**
2. **PWYSIGRWYDD GWARCHOD YR AMGYLCHEDD NATURIOL**
3. **DEALL EFFAITH NEWIDIADAU DEMOGRAFFEG**
4. **GWARCHOD A HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG**
5. **HYBU DEFNYDD ADNODDAU NATURIOL I WELLA IECHYD A LLESIANT YN YR HIR DYMOR**
6. **GWELLA CYSYLLTIADAU TRAFNIDIAETH I ALLUOGI MYNEDIAD AT WASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU**
7. **YR ANGEN AM SWYDDI O SAFON UCHEL A CHARTREFI FFORDDIADWY I BOBL LEOL**
8. **EFFAITH TLODI AR LESIANT**
9. **SICRHAU CYFLE I BOB PLENTYN LWYDDO**

Dyma'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg ond mae'r Bwrdd yn cydnabod bod ffactorau eraill pwysig heb eu hamlygu. Mae'n bosib mai un o'r rhesymau am hyn yw bod y gweithredu sydd eisoes yn digwydd yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau trigolion.

**Bydd y Bwrdd yn adolygu'r data yn yr Asesiad yn rheolaidd ac yn ymateb i unrhyw newidiadau sylweddol sydd heb eu hadnabod eisoes fel blaenoriaethau o fewn y cynllun hwn.**

**Yn yr un modd, bydd y Bwrdd yn gweithio i gael dealltwriaeth mwy manwl ar ddatblygiadau a heriau i'r dyfodol a all gael effaith ar lesiant yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys Wylfa Newydd, gadael yr Undeb Ewropeaidd ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, fel llifogydd.**

# DATBLYGU'R CYNLLUN

## SUT CAFODD YR AMCANION LLESIANT EU CYTUNO ARNYNT?

Gyda naw prif neges wedi eu hamlygu yn yr Asesiad Llesiant cynhaliwyd cyfres o weithdai dros haf 2017 er mwyn canfod barn ynglŷn â pha feysydd i flaenoriaethu. Roedd y gweithdai yn agored i gyrff cyhoeddus, y trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol.

Cynhaliwyd 18 gweithdy i gyd, dau ar gyfer pob un o'r negeseuon.

Edrychodd y gweithdai ar pob un o safbwynt:

a) uchelgais
b) dylanwad y Bwrdd
c) cadarnhau a ddylai'r neges fod yn amcan llesiant
d) sut all aelodau'r Bwrdd gyd-weithio er mwyn gwneud gwahaniaeth i drigolion

Cafodd crynodeb o'r ymatebion ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phenderfynwyd ar ba negeseuon y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer y Cynllun Llesiant hwn.

# 1. YR ANGEN I GYNNAL YSBRYD CYMUNEDOL IACH

Mae'n amlwg bod ysbryd cymunedol iach yng Ngwynedd a Môn – gyda phob un o'r 14 ardal yn dweud mor ganolog yw hyn i'w llesiant. Mae'n bwysig bod yr ysbryd hwn yn cael ei feithrin a'i hybu er mwyn creu cymunedau ac ardaloedd llewyrchus a chynaliadwy sy'n hyderus i wynebu heriau'r dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn gweld cymunedau iach fel sail i gyflawni blaenoriaethau dros y blynyddoedd nesaf, felly bydd aelodau yn cyd-weithio i atgyfnerthu'r cryfderau hynny o fewn ein cymunedau.

Bydd y gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a chynnal cymunedau iach yn digwydd law yn llaw gyda'r cymunedau hynny.

# 2. PWYSIGRWYDD GWARCHOD YR AMGYLCHEDD NATURIOL

Mae amgylchedd naturiol Gwynedd a Môn yn bwysig iawn i lesiant, diwylliant, iechyd ac economi'r ardal. Mae gennym gynefinoedd arbennig ar draws y ddwy sir sy'n asedau naturiol pwysig ac yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, ac yn cyfrannu at lesiant yr ardal a'r boblogaeth yn ehangach. Mae ardaloedd eang o Wynedd a Môn hefyd wedi eu dynodi oherwydd pwysigrwydd tirlun neu gadwraeth sy'n adlewyrchu gwerth yr amgylchedd naturiol yma.

Mae'n hinsawdd yn newid ac mae'n debygol iawn y bydd yn parhau i wneud hynny – gyda lefel y môr yn codi a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol fel llifogydd. Bydd hyn yn effeithio ar lesiant ein cymunedau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu **ac oherwydd hyn bydd yn flaenoriaeth i'r Bwrdd**.

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod gwarchod yr amgylchedd naturiol yn rhan amlwg o gyflawni ei flaenoriaethau a bydd yn thema cyffredin sy'n rhedeg ar draws yr holl amcanion llesiant.

# 3. DEALL EFFAITH NEWIDIADAU DEMOGRAFFEG

Mae poblogaeth Gwynedd a Môn yn mynd yn hŷn, tra bod niferoedd pobl ifanc yn ein cymunedau yn gostwng. Mae'r patrwm yma yn debyg o barhau. Bydd demograffeg yr ardal yn newid yn sylweddol a bydd natur ac anghenion ein cymdeithas yn dra gwahanol o ganlyniad.

Mae'r Bwrdd yn awyddus i ddeall yn well sut y bydd y newid yma yn effeithio ar lesiant cymunedau ac unigolion. Gall llawer o bobl hŷn barhau i weithio a chyfrannu yn llawn yn eu cymunedau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hefyd fod pobl hŷn yn fwy tebygol o fod angen mwy o ofal a chefnogaeth a bydd angen cynllunio am hynny. Rydym yn deall nad yw poblogaeth hŷn o reidrwydd yn golygu poblogaeth llai iach ond mae rhaid cydnabod y bydd galw cynyddol am wasanaethau oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio.



# 4. GWARCHOD A HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG

Mae'r data ar yr iaith yn dangos yn glir y dirywiad sydd wedi bod dros y 30 mlynedd ddiwethaf yn y nifer o siaradwyr Cymraeg. Mae'r gostyngiad o 11% yn uwch yng Ngwynedd na gweddill Cymru. Gwynedd a Môn yw'r ddwy sir ble mae'r Gymraeg ar ei chryfaf ac yn cael ei defnyddio yn ddyddiol gan ran helaeth y boblogaeth. Fodd bynnag, os yw'r dirywiad yn parhau i'r dyfodol gall rhannau o'r sir fod mewn peryg o golli'r iaith i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn deall pwysigrwydd y Gymraeg o ran gwead cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae angen i ni sicrhau bod trigolion yn gallu ac yn dewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn y Gymraeg. **Mae hwn felly yn flaenoriaeth ar gyfer cyd-weithio i'r dyfodol**.



# 5. HYBU DEFNYDD ADNODDAU NATURIOL I WELLA IECHYD A LLESIANT YN YR HIR DYMOR




Mae ein gwybodaeth yn dangos nad yw iechyd poblogaeth Gwynedd a Môn mor dda ag y gallai fod. Er enghraifft mae **52%** o oedolion a **30%** o blant 4-5 oed yng Ngwynedd yn ordew neu dros eu pwysau. Mae'r darlun yn debyg ar Ynys Môn gyda **58%** o oedolion a **29.6%** o blant rhwng 4 a 5 oed dros eu pwysau neu yn ordew. Mae angen galluogi plant ac oedolion i fod yn fwy egnïol, ac yn enwedig yn yr awyr agored, trwy hyrwyddo a gwella mynediad i'r mannau gwyrdd naturiol yr ardal.

Mae angen annog pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu iechyd eu hunain ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau fydd yn atal salwch yn y dyfodol.

Oherwydd yr angen i wella iechyd corfforol a iechyd meddyliol y boblogaeth ac effaith hir dymor hyn ar lesiant, **bydd y maes iechyd a gofal yn flaenoriaeth i'r Bwrdd**.

# 6. GWELLA CYSYLLTIADAU TRAFNIDIAETH I ALLUOGI MYNEDIAD AT WASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU



Roedd diffyg mynediad at wasanaethau yn un o'r materion gododd yn rheolaidd yn ystod ymgynghoriad yr Asesiad Llesiant. Mae'n amlwg bod hwn yn fater o bryder ac yn cael effaith sylweddol ar lesiant unigolion. Mae angen cynllunio gwasanaethau yn lleol felly a thargedu yr ardaloedd llesiant.

Mae cynllun penodol ar gyfer y rhanbarth wedi ei ddatblygu gan Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cynnwys Cynllun Trafnidiaeth Lleol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'r farn mai cefnogi gwaith y Bwrdd Uchelgais fyddai'r ffordd orau o sicrhau gwelliant yn y maes yma yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Bydd y Bwrdd yn rhoi strwythur ffurfiol yn ei le er mwyn cyd-weithio a dylanwadu ar waith y Bwrdd Uchelgais.

# 7. YR ANGEN AM SWYDDI O SAFON UCHEL A CHARTREFI FFORDDIADWY I BOBL LEOL

## SWYDDI O SAFON UCHEL

Roedd yr angen am swyddi o safon uchel yn un o brif negeseuon yr ymgynghoriad. Mae data yn dangos fod canolrif cyflog wythnosol Gwynedd (**£347 yr wythnos**), yn is na'r un ffigwr ar gyfer Cymru gyfan. Mae arian sydd gan pobl Gwynedd i'w wario ar ôl trethi a chostau talu am gartref yn **£662**, sy'n is na ffigwr Cymru. Ym Môn mae'r darlun ychydig yn well gyda chanolrif cyflog wythnosol **8%** yn uwch na'r un ffigwr ar gyfer Cymru gyfan. Dywedodd nifer o drigolion yn ystod yr ymgynghoriad fod hyn yn un o'r rhesymau pam fod pobl ifanc yn gadael eu cymunedau ac yn adnabod hyn fel mater pwysig iawn o ran llesiant cyffredinol yr ardal.

Mae'r Bwrdd yn llwyr ddeall yr angen am swyddi o safon a swyddi cynaliadwy. Rydym hefyd yn cydnabod y gwaith sy'n digwydd yn y maes yn rhanbarthol dan arweiniad  Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn y broses o lunio bid twf fydd yn mynd i'r afael ar y mater yma. Felly yn yr un modd a chyda trafnidiaeth bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyd-weithio ac yn cefnogi gwaith y Bwrdd Uchelgais er mwyn sicrhau'r budd llawn i Wynedd a Môn.

## CARTREFI FFORDDIADWY I BOBL LEOL

Wrth ystyried pris canolrif eiddo a chanolrif incwm aelwydydd mae **60%** o deuluoedd Gwynedd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai. Mae'r canran yma yn amrywio o ardal i ardal gyda'r canran uchaf yn Llŷn ble mae **73%** o deuluoedd wedi eu prisio allan o'r farchnad. Ym Môn mae **64%** o aelwydydd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai, gyda hyn yn codi i **72%** yn ardal Lligwy a Thwrcelyn.

Barn pobl Gwynedd a Môn yw fod hyn yn reswm arall sy'n cyfrannu at y llif o bobl ifanc o'r ardal ac mae hyn cael effaith negyddol ar lesiant y cymunedau hynny. Mae pobl eisiau tai fforddiadwy yn eu cymunedau er mwyn cefnogi a chynnal cymunedau cryf ac iach.


**Mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu'r maes yma** ar gyfer y cyfnod nesaf a bydd yn gweithio i geisio cael datrysiad cyraeddadwy i'r broblem.

# 8. EFFAITH TLODI AR LESIANT

Mae tystiolaeth yn dangos yn glir bod byw mewn tlodi yn cael effaith andwyol ar lesiant unigolion – a hynny yn y tymor byr a'r hir-dymor. Mae tlodi yn cael ei achosi gan ddiffyg adnoddau, yr un mwyaf amlwg yw incwm, ond mae hefyd yn cynnwys y diffyg mewn gallu i gael nwyddau a mynediad at wasanaethau sylfaenol.

Mae'r data a gasglwyd yn amlygu materion fel y gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim a'r rhai sy'n talu. Ym Môn mae'r bwlch yn **25%**, ac yn **36%** yng Ngwynedd o'i gymharu â **33%** ar draws Cymru gyfan. Yn ogystal â hyn mae **18%** o aelwydydd Môn a **21%** o aelwydydd Gwynedd mewn tlodi tanwydd, y ddau yn uwch na'r ffigwr Cymreig o **14%**.

**Bydd y Bwrdd yn blaenoriaethu'r maes hwn** er mwyn cael dealltwriaeth manwl o'r goblygiadau o fyw mewn tlodi yn ein gwahanol ardaloedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Asesiad Llesiant i gael darlun manwl o ble mae'r diffyg mynediad at wasanaethau yn fwy heriol oherwydd tlodi.



# 9. SICRHAU CYFLE I BOB PLENTYN I LWYDDO

Mae diffyg cyrhaeddiad addysgol yn gallu cael effaith ar lesiant unigolion gydol eu hoes ac felly mae angen sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo. Mae'r data iechyd hefyd yn dangos bod gordewdra yn broblem ac mae hyn yn gallu cael effaith hir dymor ar lesiant plant a phobl ifanc.

Mae tystiolaeth glir ynglŷn ag effaith andwyol hir dymor profiadau negyddol mewn plentyndod a sut all hyn amharu ar lesiant pobl gydol eu hoes. O'r herwydd mae'r angen i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentyndod yn holl bwysig.

**Bydd y Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth** i gefnogi teuluoedd er mwyn ceisio sicrhau fod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gweledigaeth glir ymysg partneriaid allweddol i gyflawni'r canlyniadau gorau posib i blant a phobl ifanc.



# EIN HAMCANION LLESIANT

Wedi dadansoddi'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn yr Asesiad Llesiant ac ystyried casgliadau ymchwil ac asesiadau eraill e.e. Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol, penderfynwyd ar ddau amcan llesiant. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth i feysydd penodol er mwyn gwireddu'r amcanion hynny.

Mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector cyhoeddus, rydym yn credu bod y rhain yn feysydd lle gallwn gydweithio yn well i sichrau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

## 1 CYMUNEDAU SY'N FFYNNU AC YN LLEWYRCHUS I'R HIR-DYMOR

### I WIREDDU'R AMCAN HWN BYDDWN YN BLAENORIAETHU:

✓ **Yr iaith Gymraeg**

Byddwn yn cyd-weithio i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn.

Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg fel yr iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir.

✓ **Cartrefi ar gyfer bobl lleol**

Byddwn yn cydweithio gyda'r sector dai i sicrhau mwy o gartrefi addas a fforddiadwy yn y llefydd cywir er mwyn diwallu anghenion lleol.

Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod cartrefi yn rhai o ansawdd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion.

✓ **Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau**

Byddwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hir dymor tlodi.

✓ **Effaith newid hinawdd ar lesiant cymunedau**

Byddwn yn cydweithio yn lleol ac yn gweithredu ar y cyd i geisio lliniaru effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau.

## 2 TRIGOLION SY'N IACH AC YN ANNIBYNNOL GYDA SAFON BYWYD DA

### I WIREDDU'R AMCAN HWN BYDDWN YN BLAENORIAETHU:

✓ **Iechyd a gofal oedolion**

Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y boblogaeth hŷn yn addas ar gyfer anghenion lleol.

Byddwn yn cydweithio yn lleol i gynllunio ystod eang o weithgareddau ataliol ar gyfer oedolion er mwyn eu galluogi i fyw yn iach ac annibynnol.

✓ **Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc**

Byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol i gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi.

Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn iach ac annibynnol o fewn eu cymunedau i'r hir dymor.

# SUT Y BYDDWN YN GWEITHREDU I'R DYFODOL?

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn gweithredu yn unol â saith egwyddor. Mae pump o'r rhain yn egwyddorion datblygu cynaliadwy cenedlaethol a dau wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd yn lleol. Bydd yr egwyddorion yma yn ein cynorthwyo i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau rydym yn eu hwynebu i'r dyfodol.

## YR IAITH GYMRAEG

Bydd yr iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun. Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r iaith ymhob agwedd o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## CYDRADDOLDEB

Byddwn yn parhau i dargedu adnoddau lleol a chenedlaethol i daclo anghydraddoldeb ac anfantais er mwyn cau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf breintiedig a'r cymunedau mwyaf difreintiedig.

## Y TYMOR HIR

Byddwn yn parhau i gasglu data i gael gwell dealltwriaeth o sut mae cymunedau yn edrych ar hyn o bryd, a sut y byddant yn edrych yn y dyfodol o ganlyniad i ffactorau fel newid demograffeg. Byddwn hefyd yn edrych i weld pa newidiadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar y gorwel a cheisio dadansoddi'r effaith ar ein cymunedau ni. Drwy hyn gallwn gydweithio fel partneriaid a thrigolion i gynllunio'r gwasanaethau fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

## ATAL

Byddwn yn defnyddio data tueddiadau i adnabod y problemau fydd yn wynebu ein cymunedau yn y dyfodol ac yn datblygu a gweithredu cynlluniau i'w hatal. Byddwn yn cydweithio gyda chymunedau i'w galluogi i wneud mwy i rwystro problemau rhag datblygu a chefnogi rhaglenni all wneud gwahaniaeth go iawn yn yr hir-dymor.

## CYDWEITHIO

Byddwn yn ceisio cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal cydweithio effeithiol. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda rhwng aelodau'r Bwrdd a'n trigolion am yr hyn sy'n cael ei wneud i wireddu amcanion a blaenoriaethau. Byddwn yn ystyried aelodaeth y Bwrdd yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y partneriaid cywir yn cael eu cynnwys er mwyn cyflawni ein hamcanion.

## INTEGREIDDIO

Byddwn yn gweithredu mewn ffordd fydd yn cyfrannu at fwy nag un amcan ble bo'n briodol ac yn unol ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ceisio integreiddio gwasanaethau os bydd tystiolaeth yn dangos bod hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. Byddwn yn ystyried strategaethau a chynlluniau lleol a rhanbarthol eraill sy'n gweithio tuag at yr un amcanion neu amcanion tebyg ac yn cydweithio er mwyn eu cyflawni.

## CYNNWYS

Mae gan ein trigolion a'n cymunedau rôl bwysig i'w chwarae wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a byddwn yn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n ganolog i'r broses o gynllunio gwaith y Bwrdd. Byddwn yn mabwysiadu'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer pob oedran a sicrhau bod y Bwrdd yn gweithio o fewn y safonau hynny. Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gallu cyfathrebu â'r Bwrdd yn eu hiaith a'u cyfrwng o'u dewis.

# BETH YW'R CAMAU NESAF?

Ym mis Mai 2018 bydd y Bwrdd yn cyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol terfynol ar gyfer Gwynedd a Môn. Mae'r Bwrdd am eich cynnwys yn y broses ymgynghori ac rydym yn awyddus i glywed eich barn am yr hyn fydd yn gweithio yn eich ardal chi. Wrth gytuno ar y camau i'w cymryd i wella llesiant yng Ngwynedd a Môn, byddwn yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio ac yn datblygu cynllun gweithredu fydd yn rhoi pwyslais ar weithgareddau ataliol i gael effaith cadarnhaol i'r dyfodol.

Mae peth ffordd i fynd, ac rydym eisiau clywed eich barn chi am y cynllun drafft hwn er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gosod yr amcanion a'r blaenoriaethau cywir ar gyfer llesiant trigolion Gwynedd a Môn. Mae'r ymgynghoriad ar agor o **8$^{fed}$ o Ionawr 2018** hyd nes **30$^{ain}$ o Fawrth 2018**.

I gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, cysylltwch â ni trwy'r wefan.

## AM FWY O WYBODAETH...

Am fwy o wybodaeth ac i weld yr holl ddogfennau sydd ynghlwm â'r asesiad yma ewch i:

**WWW.LLESIANTGWYNEDDAMON.ORG**

**01766 771000**

Gofynnwch am
**Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **22ain o Chwefror 2018** |
| **TEITL** | **Cydbwysedd Cynaliadwyedd - Statws Awyr Dywyll** |
| **AWDUR** | **Dafydd Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **PWRPAS** | **Gwybyddu Aelodau** |

**1. RHAGARWEINIAD**

1.1 Yn ystod y 1980au dechreuwyd rhoi cydnabyddiaeth i natur dawel neu dangnefedd ("tranquillity") ardaloedd penodol yn cynnwys cydnabod pwysigrwydd awyr dywyll ("dark skies").

1.2 Yn 1988 cafodd **Sefydliad Rhyngwladol dros Awyr Dywyll** ("International Dark-Sky Association" – **IDA**) ei sefydlu yn Tuscon, Arizona, UDA. Mae'n Sefydliad nid-er- elw gyda'r brif amcan o "Gynnal a gwarchod amgylchedd y nos a threftadaeth awyr dywyll trwy oleuadau allanol safonol".

1.3 Mae'r IDA yn gyfrifol am ddynodi ardaloedd trwy'r byd fel Gwarchodfeydd Awyr Dywyll. Hefyd mae'r sefydliad yn gyfrifol am ddynodiadau eraill i gydnabod a gwarchod Awyr Dywyll mewn ardaloedd o arwynebedd llai.

**2. GWARCHODFEYDD AWYR DYWYLL**

2.1 Mae gan y Sefydliad Awyr Dywyll Rhyngwladol (IDA) drefn benodol ar gyfer y dynodi Gwarchodfa Awyr Dywyll – yn cynnwys arolygu, meini prawf a chynlluniau gweithredu. Hefyd, mae gofyn i ardaloedd fod yn weddol fawr i fod yn gymwys am statws Gwarchodfa. Rhan greiddiol o wneud cais am y dynodiad yw paratoi a mabwysiadu Cynllun Rheoli Goleuadau ("Lightscape Management Plan"). Gellir gweld manylion am yr IDA a'r drefn dynodi ar y safle we – www.darksky.org .

2.2 Nodir gan yr IDA yn nodi mai amcanion y dynodiad o Warchodfa Awyr Dywyll yw:

- Cydnabod ymdrech i gynnal a gwarchod awyr dywyll
- Hybu eco-dwristiaeth
- Hyrwyddo gwarchod cynefinoedd nos a mwynhad cyhoeddus
- Annog gweithredwyr i warchod awyr dywyll
- Darparu cydnabyddiaeth ryngwladol
- Annog ardaloedd eraill i weithredu er lles awyr dywyll

2.3 Bellach mae nifer o Warchodfeydd Awyr Dywyll trwy'r byd - yn cynnwys yn yr UDA, Seland Newydd, yr Almaen, Ffrainc, Lloegr, Iwerddon a Chymru.

## 3. GWARCHODFA AWYR DYWYLL BANNAU BRYCHEINIOG

3.1 Daeth statws Awyr Dywyll i sylw'r cyhoedd yng Nghymru yn dilyn dynodi Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel Gwarchodfa Awyr Dywyll gan yr IDA yn 2013. Dyma'r ardal gyntaf yng Nghymru i dderbyn y statws hwn a chafwyd llawer o gyhoeddusrwydd yn ei sgil. Bu i'r Parc gynnal nifer o ddigwyddiadau fel teithiau nos, gwylio sêr ayb i gyd-fynd â'r dynodiad a sefydlwyd Arsyllfa ("Observatory").

## 4. PARC CENEDLAETHOL ERYRI

4.1 Yn dilyn y sylw a gafodd Bannau Brycheiniog bu i sawl ardal arall ym Mhrydain ymchwilio i'r posibiliadau o ymgeisio am statws Gwarchodfa Awyr Dywyll, yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri.

4.2 Yn dilyn cynnal arolygon o Awyr Dywyll, gweithredu rhai mesurau o ran goleuadau a mabwysiadu Cynllun Rheoli Goleuadau llwyddodd Awdurdod Parc Eryri hefyd i gael y statws yn 2015. Roedd angen cryn amser staff i weithio ar y prosiect a bu raid comisiynu ymgynghorwyr i wneud cyfran o'r gwaith. Mae copi o gais y Parc Cenedlaethol i'r IDA i'w weld trwy ddilyn y linc : <http://www.darksky.org/wp-content/uploads/2015/11/Snowdonia_IDSR_application.pdf> .

4.3 Yn dilyn llwyddo gyda'r cais bu i Awdurdod y Parc baratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â goleuadau ac mae rhaid adrodd yn ôl yn flynyddol ar y cynnydd a wneir o ran rheoli a chyfyngu ar oleuadau.

4.4 O ran budd y dynodiad, mae canfyddiadau cychwynnol yn nodi ei fod yn:

- ychwanegu gwerth at fusnesau lleol
- denu rhai ymwelwyr â diddordeb penodol yn awyr y nos
- yn gymorth i ddenu ymwelwyr tu allan i'r prif dymor

## 5. AHNE BRYNIAU CLWYD A GLANNAU DYFRDWY

5.1 Ddechrau mis Chwefror 2018 pleidleisiodd Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Bryniau Clwyd a Glannau Dyfrdwy i wneud cais am statws Gwarchodfa Awyr Dywyll. Roedd hyn yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd o ymchwil ac ymgysylltu gyda busnesau a'r boblogaeth leol. Yn ôl adroddiad gan y BBC bydd gwneud y cais a llunio Cynllun Rheoli Goleuadau yn costio tua £20,000 a byddai Llywodraeth Cymru yn talu hanner hynny.

## 6. PENRHYN LLŶN AC YNYS ENLLI

6. Comisiynodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru astudiaeth o Gymru yn 1997 oedd yn edrych ar weithgaredd oedd yn tarfu ar dawelwch ardaloedd. Rhoddodd yr astudiaeth hefyd ystyriaeth i awyr dywyll y nos. Yn yr Astudiaeth roedd pen draw Penrhyn Llŷn ac ardal Clynnog yn ardaloedd lle'r oedd ychydig iawn o olau nos ("sky -glow"). Comisiynwyd asesiad pellach yn 2009 ac roedd rhan helaeth o Lŷn eto yn sgorio yn uchel o ran tangnefedd ac awyr dywyll (absenoldeb goleuadau).

6.2 Yn 2014 bu i Wil Parry o Fenter y Felin Uchaf ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud cais i gael statws Gwarchodfa Awyr Dywyll i Benrhyn Llŷn. Bu yn cydweithio gyda Gwasanaeth Addysg

Awyr Dywyll Cymru a rhoddwyd cefnogaeth gan y Gwasanaeth AHNE. Fodd bynnag, barnwyd gan yr IDA nad oedd arwynebedd Llŷn yn ddigon mawr i fedru ymgeisio am statws Gwarchodfa. Nodwyd fod posibiliadau o ran statws Parc Awyr Dywyll neu Gymunedau Awyr Dywyll ar gyfer pentrefi a threfi unigol. Fodd bynnag ni fu gweithredu pellach ar y mater.

6.3 Mae Ymddiriedolaeth Ynys Enlli wedi bod yn gweithio ar gais am statws Noddfa Awyr Dywyll ("Dark Sky Sanctuary") ar gyfer yr ynys ers peth amser bellach. Erbyn hyn mae'r gwaith cefndirol wedi ei wneud (yn cynnwys newid goleuadau i rai ardrawiad isel). Mae'r Ymddiriedolaeth yn anelu i gyflwyno'r cais i'r IDA yn ystod 2018.

**7. DYNODIAD AWYR DYWYLL I LŶN**

7.1 Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd diddordeb mewn sicrhau statws Awyr Dywyll i weddill Tirweddau Dynodedig Cymru (Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r 5 AHNE). Yn sgil hynny mae grant wedi ei gynnig tuag at gynnal arolwg fyddai yn sail ar gyfer gwneud cais am statws Awyr Dywyll o rhyw fath yn ogystal â bod yn ddefnyddiol ar gyfer adolygu'r Cynllun Rheoli.

7.2 Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi derbyn y cynnig grant a bydd yr arolwg yn cael ei gynnal gan Wasanaeth Addysg Awyr Dywyll Cymru yn ystod 2018.

7.3 Hefyd bwriedir ail-ddechrau trafodaeth gyda'r IDA ynglŷn â statws Awyr Dywyll allai fod yn addas i ardal fel Llŷn sydd ddim o arwynebedd digonol ar gyfer statws Gwarchodfa.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 22 CHWEFROR 2018 |
| **TEITL** | Gweithredu'r argymhelliad i addasu'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio yn sgil yr Ymchwiliad Craffu yn y maes Cynllunio. |
| **AWDUR** | Dafydd Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio (Drafft) newydd i gynnwys yr addasiadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'n fwriad gofyn i'r Cyngor Llawn gefnogi argymhelliad y Pwyllgor Craffu i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Bu i Ymchwiliad Craffu gael ei gynnal ar y maes cynllunio yn ystod 2016-17. Un o'r meysydd oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn oedd y Cynllun Dirprwyo Cynllunio, sef y Cynllun sydd yn nodi pa geisiadau sydd yn cael eu dirprwyo i swyddogion perthnasol i'w penderfynu a pha geisiadau sydd angen eu hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio i'w penderfynu.

1.2 Yn mis Mawrth 2017, ac yn sgil gwaith a chanfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu, cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu i'r Aelod Cabinet y dylid addasu'r trothwyon yn y Cynllun Dirprwyo. Bydd addasu'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar argymhelliad y Swyddog Monitro gan ei fod yn fater cyfansoddiadol. Fel rhan o'r broses yma ceisir cefnogaeth y Pwyllgor Craffu i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio yn unol â'u hargymhellion gwreiddiol er mwyn sicrhau'r buddion a drafodwyd eisoes ac a amlinellir isod. Teimlir ei bod yn bwysig fod y Pwyllgor Craffu'n gweld allbwn gwaith yr ymchwiliad, cyn ei adrodd i'r Cyngor Llawn, gyda'r newidiadadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor eisoes, wedi ei hymgorffori mewn Cynllun Dirprwyo diwygiedig.

## 2. GWAITH Y PWYLLGOR CRAFFU

2.1 Un o'r meysydd gwaith roedd y Pwyllgor Craffu yn dymuno edrych arno oedd y rhan o'r Cynllun Dirprwyo sydd yn berthnasol i geisiadau cynllunio. Mae'n debyg fod hyn yn deillio o bryderon sydd yn cael eu codi yn gyson gan aelodau, Cadeirydd a Chyn-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am hyd yr rhaglenni, hyd y Pwyllgorau, y nifer a mathau o eitemau sydd yn dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio a pam fod rhai eitemau angen dod gerbron y Pwyllgor o gwbl. Mae pryder cyffredinol wedi ei fynegi nad yw'r drefn bresennol yn gwneud y defnydd gorau o amser y Pwyllgor a sicrhau eu bod yn delio gydag a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt heb orfod delio gyda materion sydd gyda dim mwy na diddordeb lleol iddynt.

2.2 Yn benodol i'r pwnc yma bu i'r ymchwiliad craffu ystyried:

1. Beth yw blaenoriaethu'r Pwyllgor Cynllunio o safbwynt y ceisiadau sydd yn dod gerbron a'r amser a'r arbenigedd sydd ar gael?
2. Ydy'r trefniadau presennol yn galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i ddelio gydag a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt heb orfod delio gyda materion sydd gyda dim mwy na diddordeb lleol iddynt?
3. Os oes angen newid cynnwys/trothwyon y Cynllun Dirprwyo, sut gellir gwneud hynny?
4. Beth fyddai'r budd i'r Pwyllgor Cynllunio…ac fyddai budd ehangach na budd i waith y Pwyllgor Cynllunio ei hun?

2.3 Er mwyn gwneud hyn fe ddarparwyd gwybodaeth i'r Ymchwiliad Craffu ei ystyried oedd yn ymwneud gyda:

**3. TREFNIADAU PRESENNOL Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

3.1 Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cwrdd bob 3 wythnos ac ar gyfartaledd mae oddeutu 10 cais ar bob rhaglen ac yn ddiweddar roedd 16 cais ar yr agenda oedd yn golygu dechrau'r Pwyllgor yn y bore yn hytrach nac am 1yp. O ystyried y gwaith sydd yn gysylltiedig gyda pharatoi eitemau Pwyllgor, yn ogystal â'r pwysau ar Aelodau a nifer uchel o swyddogion i baratoi o flaen llaw (a hyd cyfarfodydd) mae'n amlwg nad yw cael mwy na 10 eitem ar bob rhaglen yn ddelfrydol, yn enwedig os oes ceisiadau mawr ac/neu gynhennus. Mae'r meddylfryd hyn wedi ei gefnogi gan Gadeirydd a Chyn-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Dirprwyo Swyddog Monitro ac yn gyffredinol fe gredir mai'r nifer delfrydol ac eitemau ar yr agenda yw 8.

3.2 Oherwydd gofynion y Cynllun Dirprwyo presennol mae pob agenda draft yn dechrau gyda nifer uchel iawn o geisiadau arno (rhwng 20-25) gyda'r angen wedyn i flaenoriaethu pa geisiadau fydd ar yr agenda terfynol. Rhaid blaenoriaethu ar sail nifer o faterion a risgiau megis: gallu penderfynu o fewn cyfnod statudol er mwyn cwrdd targedau cenedlaethol; penderfynu o fewn cyfnod statudol oherwydd gall yr ymgeisydd ofyn am ad-dalu'r ffi cynllunio os na wneir hyn; risg o apêl am ddiffyg penderfyniad o fewn yr amserlen; oblygiadau economaidd/grantiau (er nad yw'n fater cynllunio, mae'n bwysig i'r datblygwr ac i gyflawni datblygiad); pwysau gwaith ar yr holl swyddogion sydd yn ymwneud gyda'r broses ac Aelodau'r Pwyllgor. O bryd i'w gilydd mae angen wedi codi am Bwyllgor ychwanegol er mwyn dal fyny neu fel a welwyd yn Rhagfyr 2017 cynhaliwyd Pwyllgor drwy'r dydd.

3.3 Yn ogystal mae'r gwaith sydd yn gysylltiedig gyda pharatoi adroddiadau Pwyllgor wedi cynyddu yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf a hynny oherwydd yr angen am adroddiadau manylach er mwyn lleihau risg i'r Cyngor, cwrdd a'r gofynion polisi lleol a chenedlaethol ac i sicrhau fod yr holl wybodaeth berthnasol gan yr Aelodau wrth iddynt wneud eu penderfyniad. Cydnabyddir fod hefyd angen adroddiad mewn perthynas a materion dirprwyedig ond yn amlwg nid yw'r cyfyngiadau amserlen yn bodoli sy'n golygu fod penderfyniad amserol yn llawer mwy tebygol.

**4. Y CYNLLUN DIRPRWYO PRESENNOL**

4.1 Ar hyn o bryd, ac o safbwynt materion cynllunio yn unig, fe ddirprwyir yr hawl i benderfynu ar unrhyw fater sydd angen penderfyniad o dan y deddfau perthnasol (a nodir yn y 'Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau') i'r Pennaeth Rheoleiddio (sydd erbyn hyn wedi ei newid i Bennaeth Amgylchedd), ac eithrio'r isod fydd yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Cynllunio (atodir copi llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio presennol fel **Atodiad 1**):

- *Ceisiadau pan fydd y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward neu unrhyw ddau aelod arall yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwyr Cynllunio o fewn yr amserlen a sefydlwyd fel bod y mater yn cael ei gyfeirio i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r cais ysgrifenedig gynnwys rhesymau cynllunio clir ar gyfer gofyn i gais gael ei gyfeirio at Bwyllgor. Dylid anfon llythyr hysbysu i bob aelod lleol. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr hysbysu. Gall aelod lleol drafod cais gyda swyddogion cyn cyfeirio cais i Bwyllgor.*
- *Ceisiadau a gyflwynir gan Aelodau staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio.*
- *Ceisiadau y mae Asesiad Effaith Amgylcheddol ynghlwm iddynt.*
- *Cais am gydsyniad i godi llinellau trydan sydd â chynhwysedd 32KV neu fwy.*


- *Ceisiadau pan fydd tri neu fwy o sylwadau wedi eu derbyn o fewn cyfnod ymgynghori sydd yn groes i argymhelliad swyddogion.*
- *Ceisiadau y mae'r Pennaeth Rheoleiddio yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.*
- *Ceisiadau am ddatblygiadau preswyl ar gyfer 5 annedd neu fwy.*
- *Ceisiadau am ddatblygiad diwydiannol, masnachol neu adwerthu sydd dros 500m sgwâr.*
- *Ceisiadau am fwy na 5 carafán.*
- *Ceisiadau cynllunio llawn am fastiau telathrebu a chyfarpar.*

***NODYN:*** *fel mater o ymarfer da, bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn cyfeirio unrhyw gais gan berthynas agos i aelod o staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio i'r Pwyllgor ei benderfynu. I'r pwrpas yma diffinnir perthynas agos fel mam neu dad, gwr neu wriag, partner, plenty neu frawd neu chwaer.*

4.2 Dylid nodi fod cyfrifoldeb ar pob prif swyddog o dan hawliau cyffredinol Cynllun Dirprwyo Swyddogion o fewn y Cyfansoddiad (Adran 13, Atodiad 3) i ystyried cyn penderfynu ar unrhyw gais dirprwyedig os dylid ei gyfeirio at Bwyllgor i'w benderfynu. Fydd y cyfrifoldeb yma yn parhau yn dilyn unrhyw newid penodol i'r cynllun dirprwyo Cynllunio.

4.3 Darparwyd siart i'r Pwyllgor Craffu oedd yn dangos y rhesymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio ac amlygwyd mai'r rheswm mwyaf oedd derbyn 3+ o sylwadau yn groes i argymhelliad swyddog. Gall y gwrthwynebiadau hyn i gyd ddod o'r un cyfeiriad post neu e-bost ac/neu fod yn anhysbys ac o bosibl yn amherthnasol i'r achos neu i gynllunio. Mae hyn hefyd yn golygu fod datblygiadau bach megis estyniadau i dai ac ati'n gorfod cael eu penderfynu gan y Pwyllgor.

4.4 Yn ystod blwyddyn 2015/16 mae'r prif resymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor fel a ganlyn:



**Nodyn:** rhaid cofio nad yw'r trothwyon hyn (na'r rhai presennol) yn gweithredu'n unigol – mae'n bosib fod cais sydd gerbron y Pwyllgor ar yr agenda oherwydd e.e. nifer o dai, gwrthwynebiadau a'i fod wedi ei alw i mewn gan yr Aelod Lleol.

## 5. Y SEFYLLFA YN GENEDLAETHOL A THREFNIADAU SAMPL O AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL ERAILL YNG NGOGLEDD CYMRU

5.1 Yn ystod 2016/17 a 2015/16 daeth 9% o holl geisiadau cynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd gerbron y Pwyllgor Cynllunio o'i gymharu gyda cyfartaledd Cymru oedd yn 6%. Mae hyn yn gyfystyr gyda oddeutu 100 o geisiadau'r flwyddyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor dros 15 o gyfarfodydd (gyda nifer o'r ceisiadau yma yn cael eu gohirio a'u hail-gyflwyno).

5.2 Edrychwyd ar drefniadau dirprwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn y Gogledd a gwelwyd fod meini prawf sydd yn gyffredin ond ddim yn gwbl gyson rhwng bob ACLl megis:

1. Amgylchiadau ble gall Aelod Lleol alw'r cais gerbron y Pwyllgor
2. Amgylchiadau ble mae gan aelod o staff neu Aelod ddiddordeb personol yn y cais
3. Ceisiadau ble mae Asesiad o Effaith Amgylcheddol ynghlwm
4. Ceisiadau ble mae'r Pennaeth yn ystyried y dylid eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad
5. Fod y cais yn disgyn o fewn y diffiniad statudol o gais 'mawr' (major)
6. Fod nifer benodol (sy'n amrywio o ACLl i ACLl) o wrthwynebiadau ysgrifenedig wedi eu derbyn
7. Fod y cais wedi ei gyflwyno gan y Cyngor neu ar dir y Cyngor

5.3 Nid yw'r mwyafrif o'r ACLl a edrychwyd arnynt yn nodi maint/math o ddatblygiad neu nifer o unedau fel trothwy fel mae ACLL Gwynedd yn ei wneud ond yn hytrach yn defnyddio'r diffiniad statudol o geisiadau 'mawr'. Mae trothwyon Cyngor Gwynedd yn is na hyn ac yn rhagnodol iawn o safbwynt niferoedd sylwadau, nifer o dai a charafanau ac mae'n debygol fod ei gynnwys wedi dyddio ac yn gyffredinol yn adlewyrchu'r amgylchiadau/diddordeb oedd yn bodoli ar adeg ei lunio. Erbyn hyn mae natur y ceisiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r ACLl wedi newid cryn dipyn o safbwynt math, maint a nifer.

5.4 Wrth ystyried hyn amlygwyd fod modd cynnig newidiadau syml i'r trothwyon dirprwyo fyddai unai yn lleihau'r nifer ar bob agenda a'r holl waith cysylltiedig ac/neu yn sicrhau fod y ceisiadau sydd angen blaenoriaeth a sylw'r Pwyllgor ar yr agenda heb orfod oedi yn ddiangen gan leihau risgiau a sicrhau lefelau perfformiad. Byddai hefyd yn fodd i geisio lleihau'r nifer a gyflwynir i'r Pwyllgor er mwyn adlewyrchu y cyfartaledd Cenedlaethol ac hwyluso penderfyniadau cyflymach.

## 6. TRAFODAETH Y PWYLLGOR CRAFFU

6.1 Ar sail y canran uchel o geisiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a'r effaith cysylltiedig o wneud hyn (fel a nodir uchod), cefnogwyd yr angen i sicrhau fod y Pwyllgor Cynllunio yn canolbwyntio ar ddelio gyda materion sydd o wir ddiddordeb iddynt yn unig ac y byddai hyn hefyd yn sicrhau'r defnydd gorau o'r amser a'r arbenigedd sydd ar gael gan hefyd osgoi'r risgiau posibl a amlinellir uchod.

6.2 Er mwyn gwneud hyn, cefnogwyd y bwriad i newid y Cynllun Dirprwyo Cynllunio a'i selio ar drothwyon/diffiniad o geisiadau 'mawr' gyda addasiadau lleol o safbwynt nifer tai (5 yn lle 10) ac hefyd datblygiad ar safle o faint penodol (0.5 hectar yn lle 1 hectar). O safbwynt ceisiadau mwynau a gwastraff ni ystyrir fod angen nodi rhain yn unigol gan y bydd y trothwyon eraill a awgrymir yn golygu y bydd y ceisiadau mawr neu sydd o ddiddordeb yn dod gerbron y Pwyllgor beth bynnag.

6.3 Roedd y Pwyllgor Craffu yn gefnogol i beidio cael trothwy ar gyfer nifer o ohebiaeth oedd ei angen yn groes i argymhelliad y swyddog er mwyn cyflwyno cais i Bwyllgor, gan fod hyn wedi ei ddangos i fod yn cyfrannu yn sylweddol tuag at geisiadau oedd mynd gerbron y Pwyllgor, oedd heb fwy na diddordeb lleol iddynt. Cydnabuwyd a chefnogwyd fod hawl yr Aelod Lleol neu dau aelod arall i alw cais i Bwyllgor o dan amgylchiadau penodol yn parhau fel y sefyllfa bresennol ac ystyriwyd fod hyn yn dderbyniol. Yn ogystal, derbyniwyd y byddai'r holl ohebiaeth a dderbynnir ar gais ac sydd yn berthnasol i gynllunio yn parhau i gael sylw teilwng a phriodol fel rhan o'r asesiad dirprwyedig.

## 7. CANFYDDIADAU'R YMCHWILIAD CRAFFU

7.1 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu gwnaethpwyd y canfyddiad fod '*trothwyon Cynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd i weld yn isel o'i gymharu gyda sefydliadau eraill ac fe amlygir hynny drwy nifer y ceisiadau sy'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio.*' Tystiolaethwyd hyn gan berfformiad cymharol Cymru 2015-16 (sydd hefyd yn wir ar gyfer 2016-17). Ar y sail yma argymhellodd y Pwyllgor Craffu fod trothwyon y Cynllun Dirprwyo Cynllunio fel oedd wedi ei drafod a'i gefnogi gan y Pwyllgor Craffu. Mae drafft o'r Cynllun Dirprwyo arfaethedig cyflawn wedi ei gynnwys fel Atodiad 2 ac mae hwn yn cyfeirio at yr hawliau i alw i mewn, cyfeirio ceisiadau gan staff ac aelodau, ymarfer da ac ati.

7.2 Rhagwelir y byddai buddion amlwg ac eang o weithredu'r newidiadau drwy:

- Llai o geisiadau ar yr rhaglen a pheidio gorfod blaenoriaethu cymaint
- Penderfyniadau mwy amserol yn debygol o:
    - Wella profiad y cwsmer
    - Lleihau'r risgiau i'r Cyngor (apel ac ad-dalu ffioedd)
- Llai o bwysau gwaith ar Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a chyfarfodydd byrrach
- Pwyllgor Cynllunio yn gallu delio a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt
- Llai o bwysau ar yr Uned Gyfieithu, Uned Gefnogol, Swyddogion Cynllunio a'r holl swyddogion eraill sydd yn cefnogi'r broses
- Alluogi'r Gwasanaeth Cynllunio i gynnal a gwella perfformiad
- Ryddhau amser Swyddogion Cynllunio i ganolbwyntio ar geisiadau cynllunio eraill (sef 91% o'r holl geisiadau) er gwella profiad holl gwsmeriaid y Gwasanaeth Cynllunio

## 8. AMSERLEN BERTHNASOL

8.1 Cyflwyno'r newid i'r Cyngor Llawn am eu cefnogaeth ar argymhelliad y Swyddog Monitro yn y cyfarfod blynyddol 3 Mai 2018.

8.2 Gweithredu'r newid yn fuan wedi hynny a chyn Medi 2018 gan fanteisio ar gyfnod yr Haf i godi ymwybyddiaeth a rhoi'r trefniadau priodol yn eu lle.

**9. CASGLIADAU**


9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu gadarnhau ac chefnogi'r Drafft Llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio arfaethedig yn Atodiad 2, sydd yn cynnwys yr addasiadau sydd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth, cyn bod y cynllun yn cael ei adrodd i'r Cyngor Llawr ar argymhelliad y Swyddog Monitro.

**10. ATODIADAU**

Atodiad 1 – Cynllun Dirprwyo Cynllunio presennol
Atodiad 2 – Drafft Llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio arfaethedig

# CYNLLUN DIRPRWYO
# CYNLLUNIO GWYNEDD





CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

**Pennaeth Rheoleiddio.**

> *Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a nodir yn y Cynllun hwn neu'r Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau:-

- Rheolaeth Datblygu (Cynllunio)
- Gorfodaeth Cynllunio
- Polisi Cynllunio
- Cadwraeth
- Bioamrywiaeth
- Hawliau tramwy, mynediad a rheolaeth cefn gwlad.
- Cludiant cyhoeddus
- Gwelliant strydoedd
- Materion grant trafnidiaeth
- Gorfodaeth ffyrdd
- Diogelwch ffyrdd
- Goriad Gwyrdd Eryri
- Meysydd parcio
- Marchnadoedd a ffeiriau
- Trwyddedu
- Safonau Masnach,
- Iechyd Amgylcheddol

**Cynllunio / Rheolaeth Datblygu**

1.1 Ystyried, cynghori, adrodd a gweithredu ar bolisïau a phenderfyniadau'r Cyngor a Phwyllgorau ar faterion cynllunio.

1.2 Sefydlu ac arwain fforymau a grwpiau i ystyried, cynghori, adrodd a gweithredu ar bolisïau a phenderfyniadau'r Cyngor a'r Pwyllgorau ar faterion Cynllunio.

1.3 Darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer pridiannau tir lleol.

1.4 Cymryd rhan mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth cenedlaethol, rhanbarthol, proffesiynol ac eraill.

1.5 Rhoi sylwadau ar ddogfennau ymgynghorol parthed polisi cynllunio lle mae hyn yn cyd-fynd â pholisi'r Cyngor.

1.6 Pob swyddogaeth sy'n gysylltiedig â chynllunio gwlad a thref ac fel sydd yn y Deddfau canlynol fel eu diwygiwyd ac yn cynnwys pob deddfwriaeth eilradd

- Deddf Cynllunio a Phryniant Gofodol 2004
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;
- Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990;
- Deddfau Safleoedd Carafan a Rheoli Datblygu 1960 a 1968.
- Deddf yr Amgylchedd 1995;
- Deddf Cynllunio a Iawndal 1991;
- Deddf Gwarchod Moch Daear 1992
- Deddf Iawndal Tir 1961;
- Cyfarwyddyd Cynefinoedd 92/43/EEC a'r Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinedd Naturiol) 1994
- Deddf Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol 2003
- Deddf Cynllunio 2008
- Deddf Lleoliaeth 2011
- Deddf Heddlu a Thystiolaeth 1984

**Dirprwyir yr hawl i benderfynu ar unrhyw fater sydd angen penderfyniad o dan y deddfau uchod i'r Pennaeth Rheoleiddio ac eithrio'r canlynol, fydd yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Cynllunio.**

- Ceisiadau pan fydd y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward neu unrhyw ddau aelod arall yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwyr Cynllunio o fewn yr amserlen a sefydlwyd fel bod y mater yn cael ei gyfeirio i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r cais ysgrifenedig gynnwys rhesymau cynllunio clir ar gyfer gofyn i gais gael ei gyfeirio at Bwyllgor. Dylid anfon llythyr hysbysu i bob aelod lleol. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr hysbysu. Gall aelod lleol drafod cais gyda swyddogion cyn cyfeirio cais i Bwyllgor.

- Ceisiadau a gyflwynir gan Aelodau a staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio.

- Ceisiadau y mae Asesiad Effaith Amgylcheddol ynghlwm wrthynt

- Cais am gydsyniad i godi llinellau trydan sydd â chynhwysedd o 32KV neu fwy.

- Ceisiadau pan fydd tri neu fwy o sylwadau wedi eu derbyn o fewn y cyfnod ymgynghori sydd yn groes i argymhelliad y swyddogion.

- Ceisiadau y mae'r Pennaeth Rheoleiddio yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.

- Ceisiadau am ddatblygiadau preswyl ar gyfer 5 annedd neu fwy.

- Ceisiadau am ddatblygiad diwydiannol masnachol neu adwerthu sydd dros 500 metr sgwâr.

- Ceisiadau am fwy na 5 carafán.
- Ceisiadau cyllunio llawn am fastiau telathrebu a chyfarpar.

NODYN

Fel mater o ymarfer da, bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn cyfeirio unrhyw gais gan berthynas agos i aelod o staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio i Bwyllgor i'w benderfynu. I'r pwrpas yma diffinir perthynas agos fel mam neu dad, gwr neu gwraig, partner, plentyn neu frawd neu chwaer.

**Cynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd**

**Pennaeth Amgylchedd.**

> *Yn y '<u>Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau</u>' yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pwer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cediwr gan y pwyllgor.*

Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol yn amodol ar unrhyw gyfnygiadau a nodir yn y Cynllun hwn neu'r Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau:-

- Rheolaeth Datblygu (Cynllunio)
- Gorfodaeth Cynllunio
- Polisi Cynllunio
- Cadwraeth
- Bioamrywiaeth
- Hawliau Tramwy, mynediad a rheolaeth cefn gwlad
- Cludiant cyhoeddus
- Gwelliant strydoedd
- Materion grant trafnidiaeth
- Gorfodaeth ffyrdd
- Diogelwch ffyrdd
- Goriad Gwyrdd Eryri
- Meysydd parcio
- Marchnadoedd a ffeiriau
- Trwyddedu
- Safonau Masnach
- Iechydd Amgylchedd

**Cynllunio/Rheolaeth Datblygu**

1.1 Ystyried, cynghori adrodd a gweithredu ar bolisiau a phenderfyniadau'r Cyngor a Phwyllgorau ar faterion cynllunio

1.2 Sefydlu ac arwain fforymau a grwpiau i ystyried, cynghori, adrodd a gweithredu ar bolisiau a phenderfyniadau'r Cyngor a'r Pwyllgorau ar faterion Cynllunio.

1.3 Darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer pridiannau tir lleol.

1.4 Cymryd rhan mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth cenedlaethol, rhanbarthol, proffesiynol ac eraill.

1.5 Rhoi sylwadau ar ddogfennau ymgynghorol parthed polisi cynllunio lle mae hyn yn cyd-fynd â pholisi'r Cyngor.

1.6 Pob swyddogaeth sy'n gysylltiedig â Chynllunio Gwlad a Thref ac fel sydd yn y Deddfau canlynol fel eu diwygiwyd ac yn cynnyws pob deddfwriaeth eilradd

1) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949

(2) Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953

(3) Deddf (Tir) Awdurdodau Lleol 1963

(4) Deddf Amaethyddiaeth 1967

(5) Deddf Mwynderau Dinesig 1967

(6) Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1976

(7) Deddf Datblygu Cymru Wledig 1976

(8) Deddf Ardaloedd Mewnol Trefi 1978

(9) Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

(10) Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir

(11) Deddf Trefi Newydd 1981

(12) Deddf Corfforaethau Trefi Newydd a Datblygu Trefol 1985

(13) Deddf Tai a Chynllunio 1988

(14) Deddf Tai

(15) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

(16) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)

(17) Deddf (Darpariaethau Canlyniadol) Gynllunio 1990

(18) Deddf Cynllunio a Digolledu 1991

(19) Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, tai a Datblygu Trefol 1993

(20) Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994

(21) Deddf yr Amgylchedd 1995

(22) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003

(23) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

(24) Deddf Atodiad Lles Cynllunio (Paratoadau) 2007

(25) Deddf Cynllunio 2008

(26) Deddf Lleoliaeth 2011

(27) Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

(28) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015

(29) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

(30) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

(31) Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

**Dirprwyir yr hawl i benderfynu ar unrhyw fater sydd angen penderfyniad o dan y deddfau uchod i'r Pennaeth Amgylchedd ac eithrio'r canlynol, fydd yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Cynllunio:**

1. Ceisiadau cynllunio pan fydd y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward neu unrhyw ddau aelod arall yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwyr Cynllunio o fewn yr amserlen a sefydlwyd fel bod y mater yn cael ei gyfeirio i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r cais ysgrifenedig gynnwys rhesymau cynllunio clir ar gyfer gofyn i gais gael ei gyfeirio at Bwyllgor. Dylid anfon llythyr hysbysu i bob aelod lleol. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr hysbysu. Gall aelod lleol drafod cais gyda swyddogion cyn cyfeirio cais i Bwyllgor.

2. Ceisiadau cynllunio a/neu gwrthwynebiadau/cefnogaeth i gais cynllunio a gyflwynir gan Aelodau Etholedig neu staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio.

3. Ceisiadau cynllunio a/neu gwrthwynebiadau/cefnogaeth i gais cynllunio a gyflwynir gan berthynas agos i Aelod Etholedig neu staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio. Diffinir "perthynas agos" yn y cyd-destun yma fel mam neu dad, gwr neu wraig, partner, plentyn,brawd neu chwaer, nain neu daid, wyr neu wyres.

4. Ceisiadau cynllunio y mae Asesiad Effaith Amgylcheddol ynghlwm wrthynt.

5. ~~Cais am gydsyniad i godi llinellau trydan sydd a chynhwysedd o 32KV neu fwy.~~

6. ~~Ceisiadau pan fydd tri neu fwy o sylwadau wedi eu derbyn o fewn y cyfnod ymgynghori sydd yn groes i argymhelliad y swyddogion.~~

7. Ceisiadau cynllunio y mae'r Pennaeth Amgylchedd yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.

8. Ceisiadau cynllunio am dai lle mae y nifer o dai sydd yn cael eu darparu yn 5 neu yn fwy

9. Ceisiadau cynllunio am ~~ddatblygiad diwydiannol masnachol neu adwerthu sydd dros 500metr sgwar~~ ddarpariaeth adeilad neu adeiladau ble mae'r gofod llawr sydd i'w greu gan y datblygiad yn 1000 metr sgwar neu fwy; neu

10. Ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau ar safle sydd yn 0.5 hectar neu fwy o ran maint

11. Ceisiadau am fwy na 5 carafan.

12. Ceisiadau cynllunio llawn am fastiau telathrebu a chyfarpar.

Diffinir 'ceisiadau cynllunio' fel: cais llawn, cais deiliaid ty, cais amlinellol, cais materion a gadwyd yn ol, cais adeilad rhestredig, cais Ardal Cadwraeth, cais i arddangos hysbysebion, cais mwynau a gwastraff, cais i ddiddymu neu amrywio amod(au), cais i ddiddymu neu amrywio Rhwymedigaeth Cynllunio, cais diwygiad ansylweddol.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| Dyddiad | 22 Chwefror 2018 |
| Pwnc | Diweddariad ar yr Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg |
| Cadeirydd y Gweithgor | Cynghorydd Gruffydd Williams |
| Aelod Cabinet | Cynghorydd Dafydd Meurig |

CEFNDIR

1 Yng nghyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn ar 28 Gorffennaf 2017, fe fabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

2 Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu yma ar 7 Rhagfyr 2017.

3 Dyma nod yr Ymchwiliad:

<u>Rhan 1 (hwn yn benodol i'r CCA drafft)</u>

Cymal A Sicrhau bod proses ymgynghori am y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft yn un gynhwysol;

Cymal B Craffu fframwaith drafft ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg a fframwaith drafft ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg;

Cymal C Craffu sut y bwriedir gweithredu ar y CCA yng nghyd-destun gofynion y TAN 20 newydd;

Cymal CH Derbyn trosolwg o'r sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd adeg ymgynghori cyhoeddus am y CCA drafft er mwyn cyflwyno barn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd cyn i'r CCA terfynol gael ei fabwysiadu.

<u>Rhan 2 (hwn yn benodol i'r cyd-destun polisi/cyngor cenedlaethol)</u>

Cymal D Casglu tystiolaeth i lunio syniadau ac awgrymiadau ar gyfer ystyriaeth Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd i ddylanwadu ar bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn y dyfodol.

GWAITH HYD YN HYN

4 Cyflwynir yma ddiweddariad i Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar waith y Gweithgor hyd yn hyn.

5 Cynhaliwyd 5 cyfarfod o'r Gweithgor rhwng 9 Ionawr a 12 Chwefror.

6 Yn ystod y cyfnod yma, rhoddwyd sylw i elfen gyntaf yr Ymchwiliad:

<u>**Cymal A**</u> **Sicrhau bod proses ymgynghori am y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft yn un gynhwysol**

7 Nododd y Gwasanaeth Cynllunio eu bod wedi cynnal ymgysylltiad ar y Canllaw Cynllunio Atodol cyfredol ym mis Mehefin 2016.

8 Cafwyd rhestr o tua 100 o ran-ddeiliaid gan y Gwasanaeth a oedd wedi cael cais i gymryd rhan yn yr ymgysylltiad ac fe ystyriwyd adroddiad cryno gan y Gwasanaeth.

9 Gwahoddwyd ar hap rhai o'r sefydliadau a oedd ar y rhestr i gyfarfod â'r Gweithgor er mwyn eu holi am eu barn am y Canllaw cyfredol ac i nodi unrhyw awgrymiadau am sut y gellir ei wella.

10 Cyfarfu Aelodau'r Gweithgor gyda chynrychiolwyr y canlynol:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Adran Gymraeg Prifysgol Bangor
- Cylch yr Iaith
- Hanfod
- Burum
- Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd

PRIF GANFYDDIADAU HYD YN HYN

11 <u>Prif Ganfyddiadau'r Ymchwiliad hyd yn hyn</u>
(Nid oes modd ymhelaethu ar bwyntiau gan fod y Gwasanaeth Cynllunio'n nodi eu dymuniad i gadw'r manylion yn gyfrinachol ar hyn o bryd). Felly yn gryno:

- Mae angen datganiad clir bod angen i'r Datblygwr fynd i ymgynghoriad cyhoeddus ar bob datblygiad 10 neu fwy o dai mewn ardal drefol a 5 neu fwy o dai mewn ardal bentrefol/wledig.
- Mae angen nodi bod angen cynnal Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ar bob datblygiad sy'n mynd i ymgynghoriad cyhoeddus.

- Mae'r Aelodau'n bryderus ynglŷn â ieithwedd a diwyg y ddogfen ymgynghorol drafft. Mae'n anodd gweld sut bod disgwyl i'r cyhoedd ddeall y ddogfen ar ei ffurf bresennol a chyfrannu'n ystyrlon i'r ymgynghoriad
- Mae angen manylion clir am fethodoleg cynnal Asesiad Effaith Iaith. Mae hyn yn elfen hanfodol o'r Asesiad. Dylid cynnwys manylion llawn am y fethodoleg yn yr Ymgynghoriad.
- Yn yr un modd mae amwysedd yn y disgrifiadau o Ddatganiad Iaith Gymraeg, a pherthnasedd y camau lliniaru.
- Mae angen disgrifiad cliriach o'r hyn sy'n ddisgwyliedig o arbenigwr ieithyddol o safbwynt y Cyngor ac unigolion neu sefydliadau allanol a'u rôl.
- Mae'r Aelodau'n ystyried bod bwriad y Gwasanaeth Cynllunio I gyflwyno adroddiad llawn o holl sylwadau'r ymgynghoriad a drafft diwygiedig o'r Canllaw I Aelodau'r Gweithgor erbyn 31 Mai 2018 yn uchelgeisiol. Gofynnir am gadarnhad o'r gallu I gyflawni hyn ar amser.

CAMAU NESAF

12 Cymal A, bwriad y Gweithgor yw cynnal y canlynol yn ystod mis Chwefror:

- Cyfweld â swyddog Hunaniaith/Uned Iaith Cyngor Gwynedd.
- Rhoi ystyriaeth i'r ymatebion llawn a gafwyd gan y Gwasanaeth Cynllunio i'r ymgysylltiad yn 2016.
- Gwerthuso'r ymgysylltiad yn erbyn safonau *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru.*
- Ystyried manylion y Cynllun Ymgynghori ar gyfer y Canllaw drafft newydd

13 <u>Cymal B</u> **Craffu fframwaith drafft ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg a fframwaith drafft ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

- Ystyried manylion y ddau fframwaith ddrafft
- Ystyried manylion y fethodoleg bresennol
- Ystyried manylion y fethodoleg ddrafft

**14 Cyfarfod Y Panel Cynllun Datbygu Lleol ar 9 Mawrth 2018**

- Aelodau'r Gweithgor i gyflwyno Prif Ganfyddiadau a sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar 22 Chwefror.
- Aelodau'r Gweithgor i gyflwyno sylwadau yn deillio o waith pellach a wneir yn dilyn 22 Chwefror.

**15 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau**

- **Ystyried y Diweddariad a chwestiynu Aelodau’r Gweithgor**
- **Cymeradwyo’r gwaith hyd yn hyn**
- **Cymeradwyo’r camau nesaf.**
- **Cymeradwyo’r Prif Ganfyddiadau**
- **Gwneud unrhyw sylwadau pellach i Aelodau’r Gweithgor eu cyflwyno i’r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar 9 Mawrth 2018**